# SL(5)557 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 203(9) a (10) a pharagraff 4(1)(a), (b) ac (e) o Atodlen 2, paragraff 4(1)(a) ac (f) o Atodlen 3, a pharagraff 5(a) o Atodlen 5 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a byddant yn dod i rym ar 5 Gorffennaf 2020. Bydd y Rheoliadau yn datgymhwyso uchafsymiau cyfnod deiliadaeth swydd aelodau o fyrddau a phwyllgorau cyrff penodol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i ymdrin â'r amharu ar apwyntiadau yn ystod y pandemig COVID-19.

Y cyrff a gwmpesir gan ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn yw Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau a rennir Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Bydd y Rheoliadau'n galluogi aelodau byrddau a phwyllgorau sy'n nesáu at ddiwedd eu deiliadaeth i barhau yn y swydd os penodir neu ailbenodir yr aelodau hynny yn ystod y 'cyfnod perthnasol' (sef y cyfnod sy'n dechrau ar 5 Gorffennaf 2020 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021).

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Atodiad A i'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys copi o ddatganiad gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus dyddiedig 23 Mawrth 2020 sy'n ymwneud â phrosesau penodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y darpariaethau iechyd cyhoeddus i gadw pellter cymdeithasol o ganlyniad i COVID-19.

Mae'r datganiad yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi atal yr holl ymgyrchoedd Penodiadau Cyhoeddus Gweinidogol. Bydd ymgyrchoedd sydd wedi'u hatal yn ailddechrau ym mis Medi 2020, fodd bynnag, bydd y dyddiad ailddechrau hwnnw yn parhau i gael ei adolygu yn rheolaidd. O ran y cyrff y mae eu hymgyrchoedd wedi'u hatal, ac na allant drosglwyddo swydd wag yn gyfreithiol, neu y byddai swydd

wag yn ansefydlogi'r bwrdd, gall Gweinidogion ymestyn cyfnodau aelodau presennol neu wneud penodiad uniongyrchol heb gystadleuaeth, nes y gellir cynnal cystadleuaeth.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Mehefin 2020**